



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2005 Rhif 1912 (Cy.155)

2005 No. 1912 (W.155)

**DIOGELU'R AMGYLCHEDD,
CYMRU**

**ENVIRONMENTAL
PROTECTION, WALES**

Rheoliadau Organeddau a
Addaswyd yn Enetig (Eu Symud ar
draws Ffin) (Cymru)
2005

The Genetically Modified
Organisms (Transboundary
Movement) (Wales) Regulations
2005

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth o ran Cymru ar gyfer gweithredu a gorfodi Rheoliad (EC) Rhif 1946/2003 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 15 Gorffennaf 2003, sy'n ymwneud â symud organeddau a addaswyd yn enetig ar draws ffin ac sy'n uniongyrchol gymwys.

These Regulations make provision as respects Wales, for the administration and enforcement of Regulation EC No 1946/2003 of the European Parliament and of the Council of 15 July 2003 on transboundary movements of genetically modified organisms, which is directly applicable.

Daw'r Rheoliadau i rym ar 15 Gorffennaf 2005.

The Regulations come into force on 15 July 2005.

Mae Rheoliad y Cyngor yn rhoi ar waith ar lefel y Gymuned y gweithdrefnau a osodwyd ym Mhrotocol Cartagena ar Fioddiogelwch, sef y Protocol i'r Confensiwn ar Amrywiaeth Biolegol ("y Protocol"), a lofnodwyd gan y Gymuned a'i Haelod-wladwriaethau yn 2000. Yn unol â'r Protocol, mae'n ofynnol i allforwyr y Gymuned sicrhau bod holl ofynion y Flaenweithdrefn Cytundeb Deallus, fel y'u nodir yn y Protocol, yn cael eu bodloni.

The Council Regulation implements at Community level the procedures laid down in the Cartagena Protocol on Biosafety to the Convention on Biological Diversity (the Protocol), which was signed by the Community and its Member States in 2000. In accordance with the Protocol, Community exporters are required to ensure that all requirements of the Advance Informed Agreement Procedure, as set out in the Protocol, are fulfilled.

Mae rheoliad 3 yn dynodi Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn 'Awdurdod Cymwys' at ddibenion Rheoliad y Cyngor o ran Cymru. Mae Erthygl 3(19) o Reoliad y Cyngor yn darparu bod awdurdodau cymwys yn gyfrifol am gyflawni'r swyddogaethau gweinyddol sy'n ofynnol o dan y Protocol.

Regulation 3 designates the National Assembly for Wales as 'Competent Authority' for the purpose of the Council Regulation as regards Wales. Article 3(19) of the Council Regulation provides that competent authorities are responsible for performing the administrative functions required by the Protocol.

Mae rheoliad 4 yn darparu ar gyfer gorfodi'r Rheoliadau a'r darpariaethau Cymunedol penodedig (darpariaethau Rheoliad (EC) Rhif 1946/2003 a bennir yn yr Atodlen).

Regulation 4 provides for the enforcement of the Regulations and the specified Community provisions (the provisions of Regulation (EC) No. 1946/2003 specified in the Schedule).

Mae rheoliad 5 yn gwneud darpariaeth ar gyfer penodi arolygwyr, a threfniadau trosiannol ar gyfer arolygwyr a benodwyd eisoes o dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (p.43).

Mae rheoliad 6 yn darparu pwerau mynediad, gan gynnwys y pŵer i gynnal profion ac arolygiadau, ac i gymryd samplau.

Mae rheoliad 7 yn galluogi arolygwyr i'w gwneud yn ofynnol bod gwybodaeth yn cael ei darparu.

Mae rheoliad 8 yn ei gwneud yn dramgwydd i fynd yn groes i'r darpariaethau Cymunedol penodedig; i rwystro arolygwyr wrth iddynt arfer eu pwerau o dan y Rheoliadau hyn; ac i roi gwybodaeth anwir; ac mae'n nodi amddiffyniad diwydrwydd dyladwy ynghylch mynd yn groes i'r darpariaethau Cymunedol penodedig.

Mae rheoliad 9 yn gwneud darpariaeth ar gyfer tramgwyddau sy'n cael eu cyflawni oherwydd bai person arall.

Mae rheoliad 10 yn gwneud darpariaeth ar gyfer tramgwyddau sy'n cael eu cyflawni gan gyrff corfforaethol.

Mae rheoliadau 11 a 12 yn rhagnodi cosbau ac yn pennu terfynau amser ar gyfer dwyn erlyniadau.

Mae rheoliad 13 yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyflwyno hysbysiadau.

Mae arfarniad rheoliadol wedi'i bartoi ar gyfer y Rheoliadau hyn. Gellir cael gafael ar gopiâu o'r is - adran Datblygu Bwyd a'r Farchnad, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

Regulation 5 makes provision for the appointment of inspectors, and transitional arrangements for inspectors already appointed under the Environmental Protection Act 1990 (c.43).

Regulation 6 provides powers of entry, including the power to carry out tests and inspections, and to take samples.

Regulation 7 enables inspectors to require the provision of information.

Regulation 8 makes it an offence to contravene the specified Community provisions; to obstruct inspectors in the exercise of powers under these Regulations; and to give false information; and sets out a due diligence defence in respect of contravention of the specified Community provisions.

Regulation 9 makes provision for offences committed due to the fault of another person.

Regulation 10 makes provision for offences committed by corporate bodies.

Regulations 11 and 12 prescribe penalties and specify time limits for bringing prosecutions.

Regulation 13 makes provision for the service of notices.

A regulatory appraisal has been prepared. Copies can be obtained from the Food and Market Development Division, National Assembly for Wales, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

2005 Rhif 1912 (Cy.155)

2005 No. 1912 (W.155)

**DIOGELU'R AMGYLCHEDD,
CYMRU****ENVIRONMENTAL
PROTECTION, WALES**

Rheoliadau Organeddau a
Addaswyd yn Enetig (Eu Symud ar
draws Ffin) (Cymru)
2005

The Genetically Modified
Organisms (Transboundary
Movement) (Wales) Regulations
2005

Wedi'u gwneud 12 Gorffennaf 2005

Made 12 July 2005

Yn dod i rym 15 Gorffennaf 2005

Coming into force 15 July 2005

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan ei fod wedi'i ddynodi(1) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(2), o ran rheoli a rheoleiddio gollwng yn fwriadol organeddau a addaswyd yn enetig, eu rhoi ar y farchnad a'u symud ar draws ffin, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan yr adran honno, yn gwneud y Rheoliadau canlynol-

The National Assembly for Wales, being designated(1) for the purposes of section 2(2) of the European Communities Act 1972(2) in relation to the control and regulation of the deliberate release, placing on the market and transboundary movements of genetically modified organisms, in exercise of the powers conferred on it by that section, makes the following Regulations-

Enwi, cychwyn, a chymhwyso

1. Enw'r Rheoliadau yw Rheoliadau Organeddau a Addaswyd yn Enetig (Eu Symud ar draws Ffin) (Cymru) 2005, deuant i rym ar 15 Gorffennaf 2005, ac aent yn gymwys o ran Cymru.

Title, commencement and application

1. The title of these Regulations is the Genetically Modified Organisms (Transboundary Movement) (Wales) Regulations 2005, they come into force on 15 July 2005 and apply in relation to Wales.

Dehongli

2.-(1) Yn y Rheoliadau hyn-

ystyr "arolygydd" ("*inspector*") yw person a benodwyd fel y cyfryw o dan reoliad 5;

ystyr "awdurdod lleol" ("*local authority*") yw Cyngor Sir neu Gyngor Bwrdeistref Sirol;

mae i "cyfathrebiadau electronig" yr un ystyr ag "*electronic communications*" yn Ndeddf Cyfathrebiadau Electronig 2000(3);

Interpretation

2.-(1) In these Regulations-

"the Assembly" ("*y Cynulliad*") means the National Assembly for Wales;

"the Council Regulation" ("*Rheoliad y Cyngor*") means Regulation EC No 1946/2003(3) of the European Parliament and of the Council of 15 July 2003 on transboundary movements of genetically modified organisms;

(1) O.S. 2003/2901.

(2) 1972 p.68.

(3) 2000 p.7; diwygiwyd y diffiniad o "electronic communications" yn adran 15(1) gan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 (p.21), adran 406(1)

(1) S.I. 2003/2901.

(2) 1972 c.68.

(3) OJ No. L 287 p.1, 5.11.2003.

ystyr "y Cynulliad" ("*the Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr "darpariaeth Gymunedol benodedig" ("*specified Community provision*") yw darpariaeth yn Rheoliad y Cyngor a bennir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn;

ystyr "Rheoliad y Cyngor" ("*the Council Regulation*") yw Rheoliad (EC) Rhif 1946/2003(1) Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 15 Gorffennaf 2003 ar symud ar draws ffin organeddau a addaswyd yn enetig.

(2) Mae i ymadroddion yn y Rheoliadau hyn nad ydynt wedi'u diffinio ym mharagraff (1) uchod, ac y mae'r ymadroddion Saesneg sy'n cyfateb iddynt yn ymddangos yn Rheoliad y Cyngor neu y cyfeirir atynt ynddo, yr un ystyr yn y Rheoliadau hyn ag ystyr yr ymadroddion Saesneg cyfatebol at ddibenion Rheoliad y Cyngor.

(3) Mae gofyniad sy'n cael ei osod ar berson gan y Rheoliadau hyn i gyflawni gweithred neu i ymatal rhag ei chyflawni, ac sy'n amodol ar p'un a roddwyd rhyw hysbysiad neu a fynegwyd rhyw ofyniad i'r person hwnnw gan arolygydd, gan awdurdod lleol neu gan y Cynulliad, i'w osod hefyd os oedd yr hysbysiad hwnnw wedi'i roi neu'r gofyniad hwnnw wedi'i fynegi gan berson a chanddo bŵer i wneud hynny o dan Rheoliadau sy'n gymwys i unrhyw ran arall o'r Deyrnas Unedig ac sy'n rhoi eu heffaith i Rheoliad y Cyngor.

Awdurdod Cymwys

3. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi'i ddynodi'n Awdurdod Cymwys at ddibenion Rheoliad y Cyngor.

Gorfodi

4.-(1) Ac eithrio fel y darperir ar ei gyfer ym mharagraff (2), rhaid i'r Cynulliad orfodi a gweithredu darpariaethau'r Rheoliadau hyn a'r darpariaethau Cymunedol penodedig.

(2) Caiff y Cynulliad gyfarwyddo, o ran achosion o ddisgrifiad penodol neu o ran unrhyw achos penodol, fod dyletswydd i orfodi sy'n cael ei gosod gan y rheoliad hwn i'w chyflawni-

- (a) gan bob awdurdod lleol o fewn ei ardal, ac nid gan y Cynulliad; neu
- (b) gan bob awdurdod lleol o fewn ei ardal, a chan y Cynulliad yn gweithredu ar y cyd.

"electronic communication" ("*cyfathrebiad electronig*") has the same meaning as in the Electronic Communications Act 2000(1);

"inspector" ("*arolygydd*") means a person appointed as such under regulation 5;

"local authority" ("*awdurdod lleol*") means County or County Borough Council;

"specified Community provision" ("*darpariaeth Gymunedol benodedig*") means a provision of the Council Regulation specified in the Schedule to these Regulations.

(2) Expressions in these Regulations which are not defined in paragraph (1) above and which appear in or are referred to in the Council Regulation have the same meaning in these Regulations as they have for the purposes of the Council Regulation.

(3) A requirement imposed on a person by these Regulations to do or to refrain from doing an act and which is conditional upon some notice having been given or requirement having been communicated to that person by an inspector, by a local authority or by the Assembly is also to be imposed if such notice was given or requirement communicated by a person having the power to do so under Regulations applying to any other part of the United Kingdom which give effect to the Council Regulation.

Competent Authority

3. The National Assembly for Wales is designated as Competent Authority for the purpose of the Council Regulation.

Enforcement

4.-(1) Except as provided for in paragraph (2), the the Assembly must enforce and execute the provisions of these Regulations and the specified Community provisions.

(2) The Assembly may direct, in relation to cases of a particular description or any particular case, that an enforcement duty imposed by this regulation is to be discharged-

- (a) by each local authority within its area, and not by the Assembly; or
- (b) by each local authority within its area, and by the Assembly acting jointly.

(1) OJ Rhif L 287 t.1, 5.11.2003.

(1) 2000 c.7; the definition of electronic communications in section 15(1) was amended by the Electronic Communications Act 2003 (c.21), section 406(1) and Schedule 17, paragraph 158.

Penodi arolygwyr

5.-(1) Caiff y Cynulliad, neu mewn unrhyw achos y mae cyfarwyddyd gan y Cynulliad o dan reoliad 4(2) yn gymwys iddo, yr awdurdod lleol, benodi'n arolygwyr y personau y mae'r Cynulliad neu'r awdurdod lleol yn ôl eu trefn yn barnu eu bod yn angenrheidiol er mwyn gorfodi'r Rheoliadau hyn a'r darpariaethau Cymunedol penodedig.

(2) Mae unrhyw benodiad o arolygydd o dan Ran VI o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990(1) sy'n effeithiol ar yr adeg y daw'r Rheoliadau hyn i rym yn effeithiol fel petai'n benodiad gan y Cynulliad Cenedlaethol o'r arolygydd hwnnw i fod yn arolygydd at ddibenion y Rheoliadau hyn.

Hawliau Mynediad

6.-(1) Os yw'n ofynnol iddo wneud hynny, caiff arolygydd, ar ôl dangos tystiolaeth ddogfennol sy'n dangos ei awdurdod, arfer unrhyw un o'r pwerau a bennir yn is-baragraff (3) isod at ddibenion gorfodi a gweithredu'r Rheoliadau hyn a'r darpariaethau Cymunedol penodedig.

(2) At y dibenion hyn, mae'r pwerau hynny yn arferadwy o ran unrhyw fangre ac eithrio unrhyw ran o fangre a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddibenion domestig.

(3) Mae pwerau arolygydd fel a ganlyn-

- (a) ar unrhyw adeg resymol-
 - (i) caiff fynd i mewn i fangre y mae ganddo le i gredu ei bod yn angenrheidiol iddo fynd i mewn iddi a chaiff gymryd gydag ef unrhyw berson a awdurdodwyd yn briodol gan y Cynulliad ac, os oes gan yr arolygydd sail resymol dros ragweld unrhyw rwystr difrifol wrth iddo gyflawni ei ddyletswydd, cwnstabl; a
 - (ii) caiff gymryd gydag ef unrhyw gyfarpar neu ddeunyddiau y mae eu hangen at unrhyw ddiben y mae'r pŵer i fynd i mewn yn cael ei arfer ar ei gyfer;
- (b) caiff gynnal unrhyw brofion ac arolygiadau (a gwneud unrhyw recordiadau) sy'n angenrheidiol o dan unrhyw amgylchiadau;
- (c) caiff gyfarwyddo y dylid gadael unrhyw fangre, neu unrhyw ran ohoni, y mae ganddo bŵer i fynd i mewn iddi, neu unrhyw beth yn y fangre honno neu arni, heb darfu arnynt (boed yn gyffredinol neu mewn ffyrdd penodol) am gyhyd ag y bo'n rhesymol angenrheidiol at ddibenion unrhyw brawf neu arolygiad;
- (ch) caiff gymryd samplau o unrhyw organeddau, eitemau neu sylweddau a geir mewn neu ar unrhyw fangre y mae ganddo bŵer i fynd i mewn iddi;

Appointment of inspectors

5.-(1) The Assembly, or in any case to which a direction of the Assembly under regulation 4(2) applies, the local authority, may appoint as inspectors such persons as the Assembly or the local authority respectively considers necessary for the purpose of enforcing these Regulations and the specified Community provisions.

(2) Any appointment of an inspector under Part VI of the Environmental Protection Act 1990(1) having effect at the coming into force of these Regulations has effect as if it were an appointment of the inspector as an inspector by the National Assembly for the purpose of these Regulations.

Rights of Entry

6.-(1) An inspector may, if so required, on production of documentary evidence showing his or her authority, exercise any of the powers specified in sub-paragraph (3) below for the purposes of the enforcement and execution of these Regulations and the specified Community provisions.

(2) For these purposes, those powers are exercisable in relation to any premises other than any part of premises used wholly or mainly for domestic purposes.

(3) The powers of an inspector are-

- (a) at any reasonable time-
 - (i) to enter premises which he or she has reason to believe it is necessary for him or her to enter and to take with him or her any person duly authorised by the Assembly and, if the inspector has reasonable cause to apprehend any serious obstruction in the execution of his or her duty, a constable; and
 - (ii) to take with him or her any equipment or materials required for any purpose for which the power of entry is being exercised;
- (b) to carry out such tests and inspections (and to make such recordings), as may in any circumstances be necessary;
- (c) to direct that any, or any part of, premises which he or she has power to enter, or anything in or on such premises, be left undisturbed (whether generally or in particular respects) for so long as is reasonably necessary for the purpose of any test or inspection;
- (d) to take samples of any organisms, articles or substances found in or on any premises which he or she has power to enter;

(1) 1990 p.43.

(1) 1990 c.43.

(d) yn achos unrhyw gynnyrch a geir ar fangre y mae ganddo bŵer i fynd i mewn iddi a hwnnw'n gynnyrch sy'n ymddangos ei fod yn organedd a addaswyd yn enetig, neu sydd wedi'i ffurfio o organeddau a addaswyd yn enetig neu'n eu cynnwys, caiff gymryd meddiant o'r cynnyrch hwnnw a'i gadw am gyhyd ag sy'n angenrheidiol at bob un neu at unrhyw un o'r dibenion canlynol, sef-

- (i) ei archwilio;
- (ii) sicrhau na fydd neb yn ymyrryd ag ef cyn iddo orffen ei archwilio; a

(iii) sicrhau ei fod ar gael i'w ddefnyddio fel tystiolaeth mewn unrhyw achos cyfreithiol am dramgwydd o dan y Rheoliadau hyn;

(dd) caiff ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson y mae ganddo sail resymol dros gredu ei fod yn gallu rhoi unrhyw wybodaeth sy'n berthnasol i unrhyw brawf neu arolygiad o dan y paragraff hwn i ateb y cwestiynau y mae'r arolygydd yn barnu ei bod yn briodol eu gofyn a llofnodi datganiad bod ei atebion yn wir;

(e) at ddibenion paragraff (dd), caiff yr arolygydd ei gwneud yn ofynnol i'r person hwnnw ateb cwestiynau o'r fath yn absenoldeb unrhyw bersonau eraill, ac eithrio person a enwebwyd gan y person a grybwyllwyd yn gyntaf ac unrhyw bersonau y gall yr arolygydd ganiatáu iddynt fod yn bresennol;

(f) caiff ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson ddangos unrhyw gofnodion, neu os yw'r wybodaeth wedi'i chofnodi ar ffurf gyfrifiadurol, i ddarparu darnau o unrhyw gofnodion, y mae'n ofynnol eu cadw er mwyn cydymffurfio ag unrhyw ddarpariaeth Gymunedol benodedig neu y mae'n angenrheidiol iddo eu gweld at ddibenion unrhyw brawf neu arolygiad o dan y paragraff hwn;

(ff) caiff arolygu a chymryd copïau o'r cofnodion hynny, neu unrhyw eitem ynddynt; ac

(g) caiff ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson roi iddo unrhyw gyfleusterau a chymorth, o ran unrhyw faterion neu bethau sydd o fewn rheolaeth y person hwnnw ac y mae gan y person hwnnw gyfrifoldebau mewn cysylltiad â hwy, i'r graddau y mae'r cyfleusterau hynny a'r cymorth hwnnw yn angenrheidiol i alluogi'r arolygydd i arfer unrhyw un o'r pwerau a roddwyd iddo gan y rheoliad hwn.

(4) Pan fo arolygydd yn cymryd meddiant, o dan y pŵer a roddwyd gan baragraff (3)(d) uchod, o unrhyw beth a geir ar unrhyw fangre, rhaid iddo adael hysbysiad yno, naill ai gyda pherson cyfrifol neu, os nad yw hynny'n ymarferol, rhaid iddo adael hysbysiad sydd wedi'i osod mewn safle amlwg, sy'n rhoi digon o fanylion i alluogi pobl i wybod pwy yw'r arolygydd a

(e) in the case of any product found on premises which he or she has power to enter which appears to be a genetically modified organism, or to consist of or include genetically modified organisms, to take possession of it and detain it for so long as is necessary for all or any of the following purposes, namely-

- (i) to examine it;
- (ii) to ensure that it is not tampered with before his or her examination of it is completed; and

(iii) to ensure that it is available for use as evidence in any proceedings for an offence under these Regulations;

(f) to require any person whom he or she has reasonable cause to believe to be able to give any information relevant to any test or inspection under this paragraph to answer such questions as the inspector thinks fit to ask and to sign a declaration of the truth of his or her answers;

(g) for the purposes of paragraph (f), the inspector may require that person to answer such questions in the absence of any other persons, other than a person nominated by the first mentioned person and any persons whom the inspector may allow to be present;

(h) to require the production of, or where the information is recorded in computerised form, the furnishing of extracts from, any records which are required to be kept for the purpose of complying with any specified Community provision or which it is necessary for him or her to see for the purposes of any test or inspection under this paragraph;

(i) to inspect, and take copies of, or of any entry in, such records; and

(j) to require any person to afford him or her such facilities and assistance with respect to any matters or things within that person's control or in relation to which that person has responsibilities as are necessary to enable the inspector to exercise any of the powers conferred on him or her by this regulation.

(4) Where under the power conferred by paragraph (3)(e) above an inspector takes possession of anything found on any premises, he or she must leave there, either with a responsible person or, if that is impracticable, fixed in a conspicuous position, a notice giving particulars sufficient to identify the inspector, what he or she has seized and stating that he or she has

beth y mae wedi'i atafaelu ac sy'n datgan ei fod wedi cymryd meddiant ohono o dan y pŵer hwnnw; a chyn cymryd meddiant o dan y pŵer hwnnw-

- (a) o unrhyw beth sy'n rhan o swp o bethau tebyg, neu
- (b) o unrhyw sylwedd,

rhaid i arolygydd, os yw'n ymarferol ac yn ddiogel iddo wneud hynny, gymryd sampl ohono a rhoi i berson cyfrifol yn y fangre gyfran o'r sampl a honno wedi'i marcio mewn modd digonol i'w hadnabod.

Cael gwybodaeth oddi wrth bersonau

7.-(1) At unrhyw ddiben o ran gorfodi a gweithredu Rheoliad y Cyngor, caiff y Cynulliad, drwy hysbysiad ysgrifenedig a gyflwynir i unrhyw berson y mae'n ymddangos iddo-

- (a) ei fod yn ymwneud ag allforio organeddau a addaswyd yn enetig; neu
- (b) ei fod ar fin ymwneud, neu ei fod wedi bod yn ymwneud, â'r gweithgaredd hwnnw,

ei gwneud yn ofynnol i'r person hwnnw roi'r wybodaeth berthnasol sydd ar gael iddo ac a bennir yn yr hysbysiad, ar y ffurf a bennir ynddo ac o fewn y cyfryw gyfnod ar ôl cyflwyno'r hysbysiad ag a bennir ynddo.

(2) At ddibenion y rheoliad hwn, ystyr "gwybodaeth berthnasol" yw gwybodaeth am unrhyw agwedd ar y gweithgareddau o dan sylw.

Tramgwyddau

8.-(1) Mae'n dramgwydd i berson-

- (a) mynd yn groes i unrhyw ddarpariaeth Gymunedol benodedig, neu fethu â chydymffurfio â hi;
- (b) rhwystro arolygydd wrth iddo arfer pŵer a roddwyd iddo gan reoliad 6 neu reoliad 7;
- (c) methu, heb esgus rhesymol, â chydymffurfio ag unrhyw ofyniad a osodwyd o dan reoliad 6;
- (ch) gwneud datganiad neu roi unrhyw wybodaeth sy'n anwir neu'n gamarweiniol mewn manylyn o bwys, a gwneud y datganiad hwnnw neu roi'r wybodaeth honno yn ddi-hid neu gan wybod bod y datganiad neu'r wybodaeth yn anwir, os yw'r datganiad yn cael ei wneud neu os yw'r wybodaeth yn cael ei rhoi gan y person gan honni ei fod yn cydymffurfio-
- (i) ag unrhyw ofyniad o osodir gan y darpariaethau Cymunedol penodedig; neu
- (ii) â chais gan arolygydd a wnaed at ddiben sy'n gysylltiedig â gweinyddu neu orfodi'r Rheoliadau hyn;

taken possession of it under that power; and before taking possession under that power of-

- (a) any thing that forms part of a batch of similar things, or
- (b) any substance,

an inspector must, if it is practical and safe for him or her to do so, take a sample of it and give to a responsible person at the premises a portion of the sample marked in a manner sufficient to identify it.

Obtaining information from persons

7.-(1) For any purpose of the enforcement and execution of the Council Regulation, the Assembly may, by notice in writing served on any person who appears to it--

- (a) to be involved in the exportation of genetically modified organisms; or
- (b) to be about to become, or to have been, involved in that activity,

require that person to furnish such relevant information available to him or her as is specified in the notice, in such form and within such period following service of the notice as is so specified.

(2) For the purposes of this regulation "relevant information" means information concerning any aspects of the activities in question.

Offences

8.-(1) It is an offence for a person-

- (a) to contravene, or to fail to comply with, any specified Community provision;
- (b) to obstruct an inspector in the exercise of a power conferred by regulation 6 or regulation 7;
- (c) without reasonable excuse to fail to comply with any requirement imposed under regulation 6;
- (d) knowingly or recklessly to make a statement or furnish any information that is false or misleading in a material particular where the statement is made or the information is furnished in purported compliance with-
- (i) any requirement imposed by the specified Community provisions; or
- (ii) a request of an inspector made for a purpose in connection with the administration or enforcement of these Regulations;

(d) rhoi eitem anwir yn fwriadol mewn unrhyw gofnod y mae'n ofynnol ei gadw o dan ddarpariaeth Gymunedol benodedig.

(2) Mae'n amddiffyniad i berson a gyhuddir o dramgwydd o dan reoliad 8(1)(a) i brofi ei fod wedi cymryd pob rhagofal rhesymol ac wedi arfer pob diwydrwydd dyladwy i osgoi bod y tramgwydd yn cael ei gyflawni ganddo ef ei hun neu gan berson sydd o dan ei reolaeth.

Tramgwyddau oherwydd bai person arall

9. Pan fo tramgwydd wedi'i gyflawni gan unrhyw berson o dan reoliad 8 oherwydd gweithred neu ddiffyg gweithred rhyw berson arall, mae'r person arall hwnnw yn euog o'r tramgwydd, a gellir cyhuddo person o'r tramgwydd a'i gollfarnu ohono yn rhinwedd y rheoliad hwn p'un a ddygir achos yn erbyn y person a grybwyllwyd gyntaf neu beidio.

Tramgwyddau gan Gyrrff Corfforaethol

10.-(1) Pan brofir bod tramgwydd o dan y Rheoliadau hyn a gyflawnwyd gan gorff corfforaethol wedi'i gyflawni gyda chydsyniad neu ymoddefiad unrhyw gyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog cyffelyb arall i'r corff corfforaethol, neu berson a oedd yn honni ei fod yn gweithredu yn rhinwedd swydd o'r fath, neu os gellir priodoli'r tramgwydd hwnnw i unrhyw esgeulustod ar ran unrhyw un ohonynt, bydd y person hwnnw, yn ogystal â'r corff corfforaethol, yn euog o'r tramgwydd hwnnw a bydd yn agored i gael ei erlyn a'i gosbi yn unol â hynny.

(2) Pan fo materion corff corfforaethol yn cael eu rheoli gan ei aelodau, mae'r paragraff blaenorol yn gymwys o ran gweithredoedd a diffyg gweithredoedd aelod mewn cysylltiad â'i swyddogaethau rheoli fel pe bai'r aelod hwnnw yn un o gyfarwyddwyr y corff corfforaethol.

Cosbau

11.-(1) Bydd unrhyw berson sy'n mynd yn groes i unrhyw un o'r darpariaethau Cymunedol penodedig yn Rhan I o'r Atodlen i'r Rheoliadau hyn neu'n methu â chydymffurfio ag unrhyw un ohonynt yn euog o dramgwydd ac yn agored-

- (a) o'i gollfarnu'n ddiannod i ddirwy nad yw'n fwy na'r uchafswm statudol neu i garchariad am gyfnod nad yw'n hwy na thri mis, neu'r ddau;
- (b) o'i gollfarnu ar ddiad i ddirwy neu i garchariad am gyfnod nad yw'n hwy na dwy flynedd, neu'r ddau.

(2) Bydd unrhyw berson sy'n mynd yn groes i unrhyw un o'r darpariaethau Cymunedol penodedig yn Rhan II o'r Atodlen i'r Rheoliadau hyn neu'n methu â chydymffurfio ag unrhyw un ohonynt yn euog o dramgwydd ac yn agored o'i gollfarnu'n ddiannod i

(e) intentionally to make a false entry in any record required to be kept under a specified Community provision.

(2) It is a defence for a person charged with an offence under regulation 8(1)(a) to prove that he or she took all reasonable precautions and exercised all due diligence to avoid the commission of the offence by himself or herself or by a person under his or her control.

Offences due to fault of another person

9. Where the commission by any person of an offence under regulation 8 is due to the act or default of some other person, that other person is guilty of the offence, and a person may be charged with and convicted of the offence by virtue of this regulation whether or not proceedings are taken against the first mentioned person.

Offences by Bodies Corporate

10.-(1) Where an offence under these Regulations committed by a body corporate is proved to have been committed with the consent or connivance of, or to have been attributable to any neglect on the part of, any director, manager, secretary or other similar officer of the body corporate or a person who was purporting to act in any such capacity, that person as well as the body corporate is guilty of that offence and is liable to be proceeded against and punished accordingly.

(2) Where the affairs of a body corporate are managed by its members, the preceding paragraph applies in relation to the acts and defaults of a member in connection with that member's functions of management as if that member were a director of the body corporate.

Penalties

11.-(1) Any person who contravenes or fails to comply with any of the specified Community provisions in Part I of the Schedule to these Regulation is guilty of an offence and liable-

- (a) on summary conviction to a fine not exceeding the statutory maximum or to imprisonment for a term not exceeding three months, or to both;
- (b) on conviction on indictment to a fine or to imprisonment for a term not exceeding two years, or to both.

(2) Any person who contravenes or fails to comply with any of the specified Community provisions in Part II of the Schedule to these Regulations is guilty of an offence and liable on summary conviction to a fine not exceeding level 5 on the standard scale or to

ddirwy nad yw'n uwch na lefel 5 ar y raddfa safonol neu i garchariad am gyfnod heb fod yn hwy na thri mis, neu i'r ddau.

(3) Mae person yn euog o dramgwydd o dan reoliad 8(1)(b), (c), (ch), neu (d) uchod yn atebol o'i gollfarnu'n ddiannod i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 5 ar y raddfa safonol neu i garchariad am gyfnod nad yw'n hwy na thri mis, neu'r ddau.

Terfynau Amser

12.-(1) Caniateir i achos am dramgwydd o dan reoliad 8, yn ddarostyngedig i baragraff (2) isod, gael ei gychwyn o fewn y cyfnod o chwe mis o'r dyddiad y daw tystiolaeth, sy'n ddigon ym marn yr erlynydd i gyfiawnhau achos cyfreithiol, yn hysbys iddo.

(2) Ni chaniateir cychwyn unrhyw achos o'r fath yn rhinwedd y rheoliad hwn fwy na thair blynedd ar ôl i'r tramgwydd gael ei gyflawni.

(3) At ddibenion y rheoliad hwn, mae tystysgrif a lofnodwyd gan neu ar ran yr erlynydd ac sy'n datgan ar ba ddyddiad y daeth tystiolaeth, a oedd yn ddigon yn ei farn ef i gyfiawnhau dwyn yr achos cyfreithiol, yn hysbys iddo yn dystiolaeth derfynol am y ffaith honno.

(4) Bernir bod tystysgrif sy'n datgan y mater hwnnw ac sy'n honni ei bod wedi'i llofnodi felly yn dystysgrif sydd wedi'i llofnodi felly oni phrofir y gwrthwyneb.

Cyflwyno Hysbysiadau

13.-(1) Rhaid i unrhyw hysbysiad sydd i'w gyflwyno o dan y Rheoliadau hyn fod yn ysgrifenedig.

(2) Caniateir cyflwyno unrhyw hysbysiad o'r fath i berson-

- (a) drwy ei draddodi i'r person hwnnw, neu drwy ei anfon drwy'r post ato yn ei breswylfan arferol neu ei breswylfan hysbys ddiwethaf;
- (b) yn achos corff corfforaethol, drwy ei draddodi i'r ysgrifennydd neu'r clerwr yn y swyddfa gofrestredig neu'r brif swyddfa, neu drwy ei anfon drwy'r post ato yn y swyddfa honno;
- (c) yn achos partneriaeth (nad yw'n bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig), drwy ei draddodi i bartner neu berson sy'n llywio neu'n rheoli busnes y bartneriaeth, neu drwy ei anfon drwy'r post ato yn swyddfa gofrestredig neu brif swyddfa'r bartneriaeth honno;
- (ch) yn achos partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig, drwy ei draddodi i aelod o'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig, neu drwy ei anfon drwy'r post ato yn swyddfa gofrestredig neu brif swyddfa'r bartneriaeth honno;
- (d) yn achos unrhyw berson arall, drwy ei adael neu ei anfon drwy'r post ato yn ei breswylfan arferol neu ei breswylfan hysbys ddiwethaf; neu

imprisonment for a term not exceeding three months, or to both.

(3) A person guilty of an offence under regulation 8(1)(b), (c), (d) or (e) above is liable on summary conviction to a fine not exceeding level 5 on the standard scale or to imprisonment for a term not exceeding three months, or to both.

Time Limits

12.-(1) Proceedings for an offence under regulation 8 may, subject to paragraph (2) below, be commenced within the period of six months from the date on which evidence sufficient in the opinion of the prosecutor to warrant proceedings comes to his or her knowledge.

(2) No such proceedings may be commenced by virtue of this regulation more than three years after the commission of the offence.

(3) For the purpose of this regulation, a certificate signed by or on behalf of the prosecutor and stating the date on which evidence sufficient in his or her opinion to warrant the proceedings came to his or her knowledge is conclusive evidence of that fact.

(4) A certificate stating that matter and purporting to be so signed is deemed to be so signed unless the contrary is proved.

Service of Notices

13.-(1) Any notice to be served under these Regulations must be in writing.

(2) Any such notice may be served on a person-

- (a) by delivering it to that person, or by sending it by post to him or her at his or her usual or last known address;
- (b) in the case of an incorporated body, by delivering it to the secretary or clerk at the registered or principal office, or by sending it by post to him or her at that office;
- (c) in the case of a partnership (other than a limited liability partnership), by delivering it to a partner or person having the control or management of the partnership business, or by sending it by post to him or her at the registered or principal office of that partnership;
- (d) in the case of a limited liability partnership, by delivering it to a member of the limited liability partnership, or by sending it by post to him or her at the registered or principal office of that partnership;
- (e) in the case of any other person, by leaving it, or sending it by post to him or her, at his usual or last known address; or

(dd) pan fo cyfeiriad ar gyfer ei gyflwyno drwy ddefnyddio dull cyfathrebu electronig wedi'i roi gan y person hwnnw, ei anfon drwy ddefnyddio dull cyfathrebu electronig at y person hwnnw yn y cyfeiriad hwnnw.

(3) Pan fo hysbysiad i'w gyflwyno i feddiannydd unrhyw fangre ac nad yw'n ymarferol darganfod, ar ôl gwneud ymholiadau rhesymol, enw a chyfeiriad y person y dylid ei gyflwyno iddo, neu pan fo'r fangre heb ei meddiannu, caniateir cyflwyno'r hysbysiad drwy ei gyfeirio at y person o dan sylw a'i ddisgrifio fel "meddiannydd" y fangre (gan enwi'r fangre honno) ac-

(a) drwy ei draddodi i ryw berson yn y fangre; neu

(b) os nad oes unrhyw berson yn y fangre y gellir ei draddodi iddo, drwy osod yr hysbysiad, neu gopi ohono, ar ryw ran amlwg o'r fangre.

(4) Pan fo hysbysiad wedi'i gyflwyno drwy ddefnyddio cyfathrebiadau electronig, bernir bod y gwasanaeth wedi'i gyflawni drwy gyfeirio a throsglwyddo'r cyfathrebiad electronig yn gywir.

(f) where an address for service using electronic communications has been given by that person, sending it using electronic communications to that person at that address.

(3) Where a notice is to be served on the occupier of any premises and it is not practicable after reasonable enquiry to ascertain the name and address of the person on whom it should be served, or the premises are unoccupied, the notice may be served by addressing it to the person concerned by the description of "occupier" of the premises (naming them) and-

(a) by delivering it to some person on the premises; or

(b) if there is no person on the premises to whom it can be delivered, by affixing it, or a copy of it, to some conspicuous part of the premises.

(4) Where a notice is served using electronic communications, the service is deemed to be effected by properly addressing and transmitting the electronic communication.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(1)

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(1)

12 Gorffennaf 2005

12 July 2005

D. Elis-Thomas

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Presiding Officer of the National Assembly

YR ATODLEN

THE SCHEDULE

(rheoliad 2(1))

(regulation 2(1))

Darpariaethau Cymunedol Penodedig

Specified Community Provisions

Rhan I

Part I

Y Ddarpariaeth yn Rheoliad y Cyngor	Y Pwnc	Provision of the Council Regulation	Subject Matter
Erthygl 5(3)	Bwrw ymlaen â symud yn fwriadol organedd a addaswyd yn enetig ar draws ffin am y tro cyntaf a hwnnw'n organedd a fwriadwyd ar gyfer ei ollwng yn fwriadol mewn ffordd na fyddai'n cydymffurfio â'r gweithdrefnau perthnasol.	Article 5(3)	Proceeding with first intentional transboundary movement of a genetically modified organism intended for deliberate release otherwise than in accordance with the relevant procedures.
Erthygl 10(1)	Methu â pharchu unrhyw benderfyniad ar fewnforio organeddau a addaswyd yn enetig ac a fwriadwyd ar gyfer eu defnyddio'n uniongyrchol fel bwyd neu fwyd anifeiliaid neu ar gyfer prosesu.	Article 10(1)	Failure to respect any decision on the import of genetically modified organisms intended for direct use as food or feed or for processing.
Erthygl 10(2)	Bwrw ymlaen ag allforio am y tro cyntaf organeddau a addaswyd yn enetig ac a fwriadwyd ar gyfer eu defnyddio'n uniongyrchol fel bwyd neu fwyd anifeiliaid neu ar gyfer prosesu mewn ffordd nad yw'n cydymffurfio â'r weithdrefn berthnasol.	Article 10(2)	Proceeding with first export of genetically modified organisms intended for direct use as food or feed or for processing otherwise than in accordance with the relevant procedure.
Erthygl 10(3)	Allforio organeddau a addaswyd yn enetig yn ddarostyngedig i symudiadau trawsffiniol ar gyfer defnyddio'r organeddau hynny'n uniongyrchol fel bwyd neu fwyd anifeiliaid neu ar gyfer eu prosesu heb fod cytundeb datganedig i awdurdodi'r mewnforio wedi'i wneud o fewn y Gymuned neu gan awdurdod cymwys trydedd wlad, fel sy'n ofynnol o dan Erthygl 12 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002.	Article 10(3)	Exporting genetically modified organisms subject to transboundary movements for direct use as food or feed or for processing without authorisation to the import having been expressly agreed within the Community or by the competent authority of a third country as required under Article 12 of Regulation (EC) No 178/2002.

Erthygl 4	<p>Methiant gan allforiwr i hysbysu'r gwledydd neu'r cyrff nad ydynt yn Bartïon ac sy'n mewnfario cyn symud ar draws ffin ryngwladol am y tro cyntaf GMO (Organedd a Addaswyd yn Enetig) a fwriadwyd ar gyfer ei ollwng yn fwriadol i'r amgylchedd ac a arfaethwyd ar gyfer y defnydd a bennir yn unol ag Atodiad I, pwynt (i), i Reoliad y Cyngor;</p> <p>Methu â darparu yn yr hysbysiad yr wybodaeth ofynnol, fel a bennir yn Atodiad I i Reoliad y Cyngor; a</p> <p>Methu â sicrhau bod yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr hysbysiad yn gywir.</p>	Article 4	<p>Failure by exporter to notify Parties and non-Parties of import prior to first international transboundary movement of a GMO intended for deliberate release into the environment and destined for the use specified in accordance with Annex I, point (i) to the Council Regulation;</p> <p>Failure to provide in the notification the minimum information, as specified in Annex I to the Council Regulation; and</p> <p>Failure to ensure that the information contained in the notification is accurate.</p>
Erthygl 6	<p>Methu â chadw am 5 mlynedd o leiaf gofnodion o hysbysiadau o dan Erthygl 4 o Reoliad y Cyngor; cydnabyddiadau bod hysbysiadau wedi dod i law; a phenderfyniadau'r Parti sy'n mewnfario neu'r wlad neu'r corff nad yw'n Barti ac sy'n mewnfario; a Methu ag anfon copiâu o'r cofnodion i'r Awdurdod Cymwys ac i'r Comisiwn.</p>	Article 6	<p>Failure to keep for a minimum of 5 years records of notifications under Article 4 of the Council Regulation; acknowledgments of receipt of notifications; and decisions of the Party or non-Party of import; and</p> <p>Failure to send copies of the records to the Competent Authority and to the Commission.</p>
Erthygl 7(2)	<p>Methu ag anfon copi i'r Ysgrifenyddiaeth o unrhyw nodyn atgoffa a anfonwyd i'r Partïon sy'n mewnfario neu i'r gwledydd neu'r cyrff nad ydynt yn Bartïon ac sy'n mewnfario.</p>	Article 7(2)	<p>Failure to copy to the Secretariat any reminder sent to Parties or non-Parties of import.</p>

Erthygl 12(1)	Methu â sicrhau bod gwybodaeth benodedig yn cael ei chynnwys mewn dogfen sy'n mynd gyda'r GMOs; a methu â sicrhau bod yr wybodaeth honno yn cael ei throsglwyddo i'r mewnforiwr.	Article 12(1)	Failure to ensure that specified information is contained in a document accompanying the GMOs; and failure to ensure that this information is transmitted to the importer.
Erthygl 12(2)	Methu â darparu'r wybodaeth atodol benodedig o ran GMOs a fwriadwyd ar gyfer eu defnyddio'n uniongyrchol fel bwyd neu fwyd anifeiliaid neu ar gyfer prosesu.	Article 12(2)	Failure to supply the specified supplemental information in relation to GMOs intended for direct use as food or feed or for processing.
Erthygl 12(3)	Methu â darparu'r wybodaeth atodol benodedig o ran GMOs a fwriadwyd ar gyfer defnydd cyfyngedig.	Article 12(3)	Failure to supply the specified supplemental information in relation to GMOs intended for contained use.
Erthygl 12(4)	Methu â darparu'r wybodaeth atodol benodedig o ran GMOs a fwriadwyd ar gyfer eu gollwng yn fwriadol ac unrhyw GMOs eraill y mae Rheoliad y Cyngor yn gymwys iddynt.	Article 12(4)	Failure to supply the specified supplemental information in relation to GMOs intended for deliberate release and any other GMOs to which the Council Regulation applies.
Erthygl 13	Methu â hysbysu Partïon o dramwyad organeddau a addaswyd yn enetig drwy eu tiriogaeth.	Article 13	Failure to notify Parties of the transit of genetically modified organisms through their territory.

OFFERYNNAU STATUDOL

2005 Rhif 1912 (Cy.155)

**DIOGELU'R AMGYLCHEDD,
CYMRU**

Rheoliadau Organeddau a
Addaswyd yn Enetig (Eu Symud ar
draws Ffin) (Cymru)
2005

STATUTORY INSTRUMENTS

2005 No. 1912 (W.155)

**ENVIRONMENTAL
PROTECTION, WALES**

The Genetically Modified
Organisms (Transboundary
Movement) (Wales) Regulations
2005

© Hawlfraint y Goron 2005

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

£3.00

W103/7/05

ON

© Crown copyright 2005

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-091179-2



9 780110 911793